



CYNLLUN HYFFORDDI 2022-23

Mabwysiadodd y Cyngor Tref Bolisi Hyfforddi a Datblygu ym mis Medi 2021, ac mae ganddo bellach ddyletswydd statudol o dan Adran 67 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i wneud cynllun yn nodi'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud bob blwyddyn i fynd i'r afael â'r anghenion hyfforddi cynghorwyr a staff.

Pwrpas y cynllun hyfforddi yw sicrhau bod cynghorwyr a staff ar y cyd yn meddu ar y wybodaeth a'r ymwybyddiaeth sydd eu hangen er mwyn i'r cyngor weithredu'n effeithiol. Nid oes angen i bob cynghorydd a staff fod wedi derbyn yr un hyfforddiant a datblygu'r un arbenigedd.

Mae meysydd craidd i fynd i'r afael â nhw er mwyn sicrhau bod gan y cyngor sgiliau a dealltwriaeth ddigonol, sef:

- Anwytho sylfaenol i gynghorwyr;
- Y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru;
- Rheolaeth ariannol a llywodraethu.

Bydd pob cynghorydd yn cael cynnig y cyfle i fynychu cyfleoedd hyfforddi a datblygu perthnasol. Mae Un Llais Cymru yn darparu amserlen fisol o'i gyrsiau, ac mae'r rhain yn cael eu dosbarthu i bob aelod yn unol â hynny. Mae pob cynghorydd yn cael y fersiwn diweddaraf o 'Canllaw y Cynghorydd Da' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a dylent ymgyfarwyddo â'i gynnwys.

Rhaid i bob cynghorydd ddilyn Hyfforddiant Cod Ymddygiad o leiaf unwaith yn ystod oes cyngor (h.y. 5 mlynedd o etholiad i etholiad). Darperir y cyrsiau hyn gan Un Llais Cymru a Chyngor Sir Caerfyrddin.

Wrth bennu blaenoriaethau hyfforddiant uniongyrchol cynghorwyr, gwnaed asesiad hyfforddiant cychwynnol o'r sgiliau hanfodol sydd eu hangen ac a yw'r cyngor yn teimlo bod digon o wybodaeth a phrofiad ar draws y cyngor iddo weithredu'n effeithiol o fis Mai 2022 ymlaen. O ran staff y cyngor, mae arfarniadau perfformiad blynyddol yn nodi cyfleoedd hyfforddi unigol yn barhaus, ac mae rhai hyfforddiant iechyd a diogelwch yn orfodol ac mae'n rhaid ei gyflawni ar adegau penodol.

O ran cynlluniau hyfforddi uniongyrchol y cyngor, nodir y rhain fel a ganlyn:

PWY	BETH	SUT	PRYD	SYLWADAU
Cynghorwyr newydd a rhai sy'n dychwelyd	Hyfforddiant Anwytho Sylfaenol	I'w gyflwyno gan staff y Cyngor	10.05.22	
Pob Cynghorydd	Hyfforddiant Cod Ymddygiad	Hyfforddiant Ffurfiol gan Un Llais Cymru a/neu CSC	Erbyn 31.10.22	
Pob Cadeirydd ac Is-gadeirydd	Sgiliau Cadeirio Modiwl 10	Un Llais Cymru	Erbyn 31.10.22	
Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid	Modiwl Cyllid Llywodraeth Leol 21 (o leiaf)	Un Llais Cymru neu arall	Erbyn 31.10.22	Argymhellwyd y dylai aelodau'r Pwyllgor Cyllid fynychu'r modiwl hwn hefyd.
Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol	Cyrsiau cynllunio perthnasol	Cymorth Cynllunio Cymru neu arall	Erbyn 31.10.22	Argymhellir y dylai aelodau'r Pwyllgor Dibenion Cyffredinol hefyd fynychu'r modiwl hwn
Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli	Y Cyngor fel Cyflogwr Modiwl 3	Un Llais Cymru neu arall	Erbyn 31.10.22	
Clerc	Datblygiad Proffesiynol Parhaus	Presenoldeb mewn cynadleddau, seminarau a digwyddiadau sector-benodol	Erbyn 31.03.23	Mae'r Clerc â chymhwyster CiLCA
Dirprwy Glerc/Rheolwr Cyllid	Datblygiad Proffesiynol Parhaus	Fel uchod ar gyfer y Clerc ac unrhyw hyfforddiant rheoli ariannol perthnasol ychwanegol lle bo angen	Erbyn 31.03.23	Mae gan y Dirprwy Glerc/Rheolwr Cyllid gymwysterau CiLCA ac ar hyn o bryd mae'n mynychu cwrs rheolaeth ariannol sy'n berthnasol i'r rôl
Yr holl staff eraill	Datblygiad Proffesiynol Parhaus	Cyrsiau/digwyddiadau sy'n berthnasol i'w rôl a'r holl ofynion statudol megis iechyd a diogelwch	Erbyn 31.03.23 neu fel sy'n ofynnol yn statudol	

Bydd y cynllun hyfforddi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol.